PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY 1872

**ARHOLIAD MYNEDIAD**
**IONAWR 2020**

# TROSEDDEG

**Amser - 1.5 awr**
**Atebwch DRI chwestiwn**

---

1. Amlinellwch dri rheswm pam y gallai rhai pobl ifanc fod yn fwy tebygol o gyflawni troseddau, a nodwch rai ffyrdd y gellid eu defnyddio i leihau'r gyfradd droseddu ymhlith pobl ifanc.

2. Mae menywod yn cyfrif am ychydig llai na 5% o boblogaeth y carchardai yng Nghymru a Lloegr, ond mewn rhai achosion maent yn fwy tebygol o aildroseddu na dynion. Yn eich barn chi, pam nad yw carchar yn gweithio i rai menywod, a beth y gellid ei wneud i wella'r canlyniadau yn eu hachos hwy?

3. Nid oes data i awgrymu bod defnyddio canabis yn fwy peryglus na defnyddio alcohol, ond mae canabis wedi'i droseddoli mewn gwledydd ar draws y byd. Trafodwch rai o'r dadleuon eraill o blaid ac yn erbyn dad-droseddoli canabis.

4. Diffinnir Digwyddiad Casineb fel unrhyw ddigwyddiad (os yw'n drosedd neu beidio) sydd, yn ôl barn y dioddefwr neu unrhyw unigolyn arall, wedi'i ysgogi gan ragfarn neu gasineb. Yn eich barn chi, pwy sydd fwyaf tebygol o gael eu targedu gan droseddau casineb, a beth y gellid ei wneud i atal troseddau o'r fath?

5. '*Mae dyn sy'n lladd yn llofrudd, ond mae menyw sy'n euog o drosedd dreisgar yn cynrychioli popeth sy'n anfad.* Helena Kennedy yn *The Guardian*; dydd Mawrth 2 Hydref 2018.

   Gan gyfeirio at y datganiad uchod, amlinellwch rai o'r ffyrdd y gall y cyfryngau bortreadu troseddwyr benywaidd mewn ffordd wahanol i droseddwyr gwrywaidd, a pham.

6. Yng Nghymru a Lloegr yr oedran cyfrifoldeb troseddol yw 10 mlwydd oed; mae hyn yn golygu na ellir arestio plant o dan 10 oed, na'u cyhuddo o drosedd. Yn eich barn chi, ar ba oedran y dylai plant fod yn gyfrifol am eu troseddau, a pham? Defnyddiwch enghreifftiau i ategu'ch ateb, lle bo hynny'n bosibl.

7. Nodwch ac amlinellwch y tair nodwedd bersonoliaeth bwysicaf i heddwas feddu arnynt yn eich barn chi. Eglurwch pa effaith y gallai'r nodweddion hyn eu cael ar ganfyddiadau'r cyhoedd o'r heddlu.